

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cynghorydd Neelo Farr

Ward: Canol Dwyrain
Porthcawl

Plaid: Plaid Lafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Canol Dwyrain Porthcawl ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni, gan gynnwys cael fy mhenodi'n Aelod Cabinet dros Adfywio.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi mynegi 94 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

[Y Cynghorydd Neelo Farr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr](#)

Gweithgarwch yn yr Etholaeth

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd Pact yn ogystal â Fforwm Shout Porthcawl sy'n fforwm i bobl dros 50 oed.

Rwyf hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Bartneriaeth Arfordirol.

Rwyf wedi mynychu digwyddiadau eraill a gynhaliwyd ym Mhorthcawl i sicrhau bod ward Canol Dwyrain Porthcawl yn cael ei chynrychioli.

Rwyf wedi cwrdd â swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'm cydweithiwr, y Cynghorydd Walter, i drafod croesfan bosibl ar Ffordd Newton Notais. Yr wyf hefyd wedi siarad yng Nghyngor Tref Porthcawl ac wedi gofyn iddynt ystyried cyllid rhannol tuag at y groesfan.

Rwyf wedi cyflwyno atgyfeiriadau ynghylch tyllau mewn ffyrdd, rheoli traffig, iechyd a diogelwch, materion digartrefedd, materion iechyd meddwl. Rwyf wedi cyflwyno

atgyfeiriad i gefnogi Ysgol Gynradd Porthcawl gyda gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

Rwyf wedi cyfeirio nifer o unigolion at Gyflogadwyedd i gael cymorth i sefydlu eu busnes eu hunain. Mae fy mhresenoldeb yng nghyfarfodydd y cyngor wedi bod yn 90%, rwyf wedi colli 3 chyfarfod ond wedi anfon ymddiheuriad.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Fel aelod o'r cabinet, rydw i wedi bod yn rhan o ymgynghoriadau ynghylch adfywio Porthcawl, manau agored, Aldi, Cyswllt Metro, datblygiad Cosy Corner a Phafiliwn y Grand. Yr wyf hefyd wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ar strategaeth y dref a chludiant rhwng y cartref a'r ysgol gan y bydd hyn yn effeithio ar lawer o'n plant.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwyf wedi cwrdd â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Lleol yn rheolaidd i roi sylw i unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ogystal ag unrhyw faterion a godir gan breswylwyr sy'n dod o dan gylch gwaith yr heddlu.

Cynghorydd: Neelo Farr

Dyddiad: 03/07/2023